# Cwmni

**Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi**

Rhifyn 243 Pris £1 Mis Ebrill 2022



*"Rhag ofn i unrhyw Rwsiaid alw, mae'n tŷ ni'n cefnogi'r Wcráin*

## Mrs Joan Shapland

**Â thristwch derbyniwyd y newyddion am farwolaeth y cyfaill annwyl, Joan Shapland, cyn athrawes yn Ysgol Gymraeg Caerffili.**

**Bydd ei hangladd am 4:00 o'r gloch brynhawn Llun y 4ydd o Ebrill yn Amlosgfa Thronhill, Caerdydd.**

**Gyda chaniatad y teulu, bydddwn yn cyhoeddi teyrnged i Joan yn "Cwm*ni*" mis Mai**

# Dyma Ni!

Eich papur bro mewn print am y tro cyntaf ers dwy flynedd.

Mae nifer ohonoch wedi cyfarwyddo â derbyn y papur ar-lein ac yn dweud ei bod yn well gennych eich papur yn electronig.

Er y cynnydd mewn costau, dyn ni wedi llwyddo i gadw'r pris yr un peth, sef £1 y copi neu £10 y flwyddyn. Ydych chi wedi talu eleni?

Beth bynnag, nawr mae gennych ddewis. Os ydych am dderbyn copi o'r papur wedi'i argraffu bob mis, cysylltwch â'r Golygydd :

benamarycwmni@yahoo.com

**Diolch yn Fawr**


**PWYLLGOR a SWYDDOGION**

*Ariennir yn rhannnol gan* ***Lywodraeth Cymru***

**Cadeirydd:** Robert Dutt **Ysgrifennydd Cofnodion:** Ann Lewis

**Trysorydd:** Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

**Golygydd:** Ben Jones benamarycwmni@yahoo.com 02920 862428 07891916046

**Ysgrifennydd:** Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920885151

**Golygydd Lluniau:** Mary Jones **Cynorthwy-ydd:** Jan Penney

**Gweplyfr/ Face book:** Papur Bro Cwmni **Y Pwyllgor:** Eirlys Thomas, Dilys Williams

**Hysbysebu:** Bethan Ollerton Jones, Menter Iaith

**Gwefan:** Menter IaithSir Caerffili.cymru/ Cwm*ni*

**e-bost**: Golygydd@papurcwmni.cymru/ benamarycwmni@yahoo.com

**Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn ôl gofynion golygyddol.**

**Argraffir gan Tower Print, Bedwas**

# Cofio Michael Charnnell-White

Bu farw Meic 12 Chwefror 2022 yn dilyn salwch byr. Dyn cymdeithasgar a chynnes oedd Meic, ac roedd bob amser yn barod i sgwrsio â ffrindiau a dieithriaid fel ei gilydd. Tyst i hyn yw'r negeseuon niferus o gydymdeimlad a dderbyniodd ei deulu, a Linda yn enwedig, dros yr wythnosau diweddar. Sonia'r negeseuon hynny am ei ddoniau, ei werthoedd, ei ffydd, a'i gyfeillgarwch. Sonia llawer hefyd am ei gerddoriaeth ac am gyfraniad cerddorol gwerthfawr Meic ar adegau allweddol yn eu bywydau, boed yn fedydd, yn briodas, neu'n angladd. Roedd gan Meic olwg gadarnhaol ar fywyd, roedd yn hael â'i amser, ac roedd ganddo hiwmor parod hefyd. Mae'n deg dweud bod Meic yn dipyn o gymeriad ac, felly, nid rhyfedd i ambell un ei ddisgrifio fel cymeriad diarhebol!



Mae llawer o'r negeseuon hefyd yn tystio i gariad digamsyniol Meic at ei deulu. I Cathryn a Nerys, roedd y cariad a'r parch a oedd gan Meic a Linda at ei gilydd, yn ogystal â'u gwaith tîm diymdrech, yn eu gwneud yn batrwm i'w efelychu. Roedd Meic yn ŵr, yn frawd, yn fab, yn dad, ac yn ffrind cariadus a chefnogol ac, ar ben y cyfan, ef oedd y Pops gorau posib i Alice, Jessica, a Seth!

Ganed Michael John yn Nottingham ym 1946 i Gwen a Maurice ac roedd ganddo chwaer iau, Anne. Ymgartrefodd y teulu yn Radcliffe-on-Trent a mynychodd Meic ysgol gynradd y pentref, ac yna ysgol uwchradd sirol Arnold. Roedd gan Meic griw agos o ffrindiau a oedd yn cyfarfod yn rheolaidd yn ei dŷ i chwarae cardiau, gwersylla, a gwrando ar gerddoriaeth. Pedair ar ddeg oed oedd Meic pan benodwyd e yn organydd eglwys pentref Shelford, ac yn organydd cynorthwyol yn eglwys Radcliffe a chapel ysbyty Saxondale. Pan oedd yn bymtheg oed, lluniodd ei gyfansoddiad cyntaf erioed, sef sonata i biano yn G leiaf.

Wedi iddo adael yr ysgol, aeth i Abertawe i hyfforddi'n athro, lle cyfarfu â'i gymar oes, Linda, a dysgu'r Gymraeg hefyd. Priodwyd Meic a Linda ym mis Awst 1969 ac ymgartrefu yng Nghaerffili. Gweithiodd Meic fel athro, a daeth yn organydd a chôr-feistr yn eglwys Martin Sant ym mis Tachwedd y flwyddyn honno. Ymfalchïai Meic yn organ Father Willis yr eglwys, a thaerai mai hi oedd yr organ orau yng Nghwm Rhymni.

Achos cryn falchder i Meic a Linda oedd genedigaeth eu merched, Cathryn a Nerys. Byddai Cathryn wrth ei bodd yn chwarae deuawdau piano a ffidil gyda Meic, ac yn trafod cerddoriaeth a'i gyfansoddiadau. Rhannai Meic a Nerys ddiddordeb mewn nofio, rhaglenni *Blackadder* a *Monty Python*, a 'War of the Worlds' Jeff Wayne. Gwirionodd Meic ar ei wyrion, a byddai wrth ei fodd yn eu cwmni ac yn mwynhau mynd â hwy allan am y dydd. Cefnogai bopeth a wnâi'r plant, gan fynychu cyngherddau ysgol ac eisteddfodau. Roedd y plant hefyd wrth eu bodd yn ei gwmni, gan fwynhau eistedd a sgwrsio â Pops yn ei gornel yn y lolfa.

Parhaodd Meic â'i addysg ac ennill B.Mus ac M.Mus yn Adran Gerddoriaeth Prifysgol Caerdydd. Mwynhâi rannu ei wybodaeth a'i gariad at gerddoriaeth, a bu'n dysgu mewn sawl ysgol, gan gynnwys Ysgol Gynradd Hendreforgan, St John's-on-the-Hill, Cas-gwent, a Choleg Kings, Caerdydd. Bu hefyd yn darlithio yn Adran Astudiaethau Allanol Prifysgol Caerdydd ac yng Ngholeg Ystrad Mynach. Fel tiwtor piano, organ a chanu, magodd Meic sawl cenhedlaeth o fyfyrwyr, a bu'n feirniad selog yn eisteddfodau lleol yr Urdd. Wedi ei ymddeoliad, mwynhâi Meic ganu'r piano ar gyfer cyngherddau a sesiynau canu Ysgol Ifor Bach, lle bu Linda yn athrawes.

Heb os, roedd Meic yn gerddor ac yn gyfansoddwr dawnus. Clywai syniadau a motiffau er yn ifanc, a byddai wastad yn cario papur ysgrifennu a chatrawd o feiros er mwyn cofnodi ei syniadau a rhoi trefn arnynt yn ddiweddarach. Dros y Nadolig llynedd, bu Nerys yn trafod ei gyfansoddiadau gyda Meic, ac ar ôl awr o sgwrsio llwyddodd i gofnodi gwerth pum mlynedd yn unig o gyfansoddiadau – a dyma adlewyrchiad teg o hyd a lled ei angerdd at ei gerddoriaeth! Cyfansoddodd Meic ddarnau i aelodau'r teulu, i ffrindiau, ac i ddieithriaid, ac mae'r teulu yn hynod falch o'i lwyddiannau yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

/Trosodd

Yn Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni yn 1990, Meic oedd enillydd cyntaf erioed Medal y Cyfansoddwr, ac enillodd fedal y Cyfansoddwr unwaith eto yn Eisteddfod Pen-y-bont ar Ogwr ym 1998. Perfformiwyd ei gyfansoddiadau corawl gan gorau St John's-on-the-Hill, Côr Eglwys Martin Sant ac, yn 2019, gan CÔR o dan arweiniad Osian Rowlands. Cofleidiodd Meic iaith a diwylliant Cymru, ac fe'i hystyriai hi'n fraint o'r mwyaf iddo gael ei dderbyn i'r Orsedd a chael gwisg wen am ei wasanaeth i gerddoriaeth.

Byddwn yn gweld eisiau Meic, a byddwn yn cofio amdano bob dydd â gwên, ac yn diolch am ei gariad, ei amser, ei anogaeth, ei amynedd ac, wrth gwrs, ei gerddoriaeth.

**Englyn**

Mae 'na edau ac mae nodyn – yn nawr
yn Nerys a Cathryn
sy'n gwau cân am nerth perthyn,
am gerddor fu'n lliwio'r llun.

*Mererid Hopwood*

**Y Ddau**

*(Cofio am Mike a Gareth)*

Mae rhuban du
Am fraich Cwm Rhymni.

Mae'r frawddeg
ar ei hanner
yn Nelson.


Mae nodau
yn driblith draphlith
yn Lôn y Llyn
a'r sgôr yn wag.

Mae bwlch
ym mur y Pethe
yng Nghwm Rhymni.

*Dafydd Islwyn*

***Gwaith ar y cyd gan Linda, Cathryn a Nerys yw'r deyrnged hon***

# Colofn Dafydd Islwyn



Wythnosau yn ôl hanner clywais Rhodri Jones, Caerdydd, ar 'Heno' yn trafod ei gyfrol "Meddwl am Man Utd, atgofion dirdynnol cyn bêl droediwr proffesiynol." Holais fy hun, a ddywedodd ei fod yn cyflwyno'r gyfrol i'w ddiweddar dad-cu - W.J.Jones. I gael cadarnhad bod W.J. wedi marw, gan nad oeddwn wedi clywed yr un gair am ei farwolaeth, holais olygydd "Cwmni". Fe gafodd e wybod gan Yr Athro E.Wyn James, yr Eglwys Newydd i W.J. farw yn 2019.

Ar ôl derbyn y newyddion trist, prynais gyfrol Rhodri Jones. Darllenais: "Cyflwynaf y llyfr hwn i 'nhad-cu W.J.Jones (1928 – 2019)."

"Byth a beunydd a danteithion yn ei boced
Losin y dewin ac ambell blanc o siocled
Llu o drysorau ar ei gwpwrdd llyfrau
W.J. ar glawr, ond tad-cu i ninnau."

(Dyfyniad o gerdd ysgrifennais i dad-cu i ddathlu ei ben blwydd yn 90 oed.)

/Trosodd

**Colofn Dafydd Islwyn (parhad)**

Yn y diolchiadau dywedodd:

Diolch i dad-cu am drosglwyddo'r cariad at eiriau i'w ŵyr.

Mae o leiaf saith dyn â'r flaen lythyren W.J. wedi cyfrannu at lenyddiaeth Gymraeg. W.J.Griffith (1875-1931) awdur stori am Henllys Fawr; Yr Athro W.J.Gruffydd (1881-1954) - athro, bardd a llenor; W.J.Jones (1907 - 1989) Frongoch ger y Bala, englynwr ac awdur; W.J.Williams (1929-2019), Coed y Bedo, Cefnddwysarn, Y Bala, englynwr a'r Parchedig W.J.Edwards (1936-2019) Bow Street, llenor. Bu'r Parchedig Brifardd W.J. Gruffydd (1916 -2011), Ffair Rhos, yn arwain Cylch Llenyddol Bro Elyrch o gwmpas bro ei febyd, cefndir ei ddwy bryddest fuddugol: Ffenestri 1955 ac Unigedd 1960. Flynyddoedd yn gynt trefnodd W.J.Jones gydag Elerydd i arwain ei ddosbarth ef o Gaerffili o gwmpas ardal mebyd Elerydd.

Dwy daith yn cysylltu W.J.Gruffydd, y Prifardd Elerydd â Chwm Rhymni. Bu ef yn seremoni gyhoeddi'r Genedlaethol 1990 ym Margoed ym mis Mehefin 1989. Roedd cysylltiad W.J.Jones â Chwm Rhymni yn gadarnach drwy ei ddosbarth nos yng Nghaerffili a'r Genedlaethol yn 1990.

Brodor o Ysbyty Ystwyth oedd W.J. ac wrth ei ddwyn i gof rydw i yn ei gofio fel awdur rhaglenni adran addysg BBC Cymru, darlithydd yng Ngholeg Cyncoed o 1963 i 1987; eglwyswr, enillydd saith gwobr yn y Genedlaethol; golygydd a nofelydd. Yn bennaf cofiaf amdano fel darlithydd yn adran efrydiau allanol prifysgol Cymru, Caerdydd, yng Nghaerffili. Dosbarth a sefydlwyd gan Doctor Meredydd Evans ym mis Medi 1973. W.J. fel yr oedd yn cael ei alw yn barchus gan aelodau ei ddosbarth yn paratoi darlithoedd yn fanwl am ddau ddeg tri thymor o fis Medi 1974 hyd fis Mawrth 1997. Am dymhorau, y maes llafur oedd Llenyddiaeth y Genedlaethol. Bu W.J. yn golygu cyfansoddiadau eisteddfodau'r De o 1990 tan 2000, o Gwm Rhymni i Lanelli!

Deuthum ar draws rhai o'r llythyrau a dderbyniais oddi wrth W.J.. Yn llythyr 19eg o Fehefin 1989, dywedodd ei fod wedi golygu Rhestr Testunau Cwm Rhymni 1990: "Mae'n llyfr 172 tudalen. Nid ar chwarae bach y mae cynhyrchu gwaith o'r fath mewn cyn lleied o amser." Dywedodd hefyd, "..... byddaf yn siŵr o'ch gweld yn un o sesiynau'r Cyhoeddi. Byddaf yn narlith Derec Llwyd, fwy na thebyg, ac ofnaf nad wyf ddyn Cymanfa."

Yn ei lythyr 14eg o Ebrill 1997, "carwn ddechrau trwy ddiolch o galon i chi am ddod mor gyson i'n nosbarth yng Nghaerffili. Roedd yn hyfryd bod yng nghwmni'r aelodau bob wythnos ac wy'n dal i deimlo cryn chwithdod o wybod na fyddaf yn dringo rhiw Caerffili'r tymor nesa i flasu cyfeillgarwch y dosbarth unwaith eto."

Yn dilyn darllen llythyr Mehefin 1989 codais flwyddlyfr UCAC 1989-1990. Bras ddarllenais: 6ed o Dachwedd 1989 - trydydd dosbarth W.J.. Anghofiodd! Daeth cyn gynted ag y medrodd wedi i ni ei atgoffa. W.J., yn rhydd o'i nodiadau yn well tiwtor?

22ain o Chwefror 1990 - Euthum i lawr i Swyddfa'r Eisteddfod. W.J. yno. Dywedodd bod Gwilym Rhys Roberts, Llanidloes, yn ddifrifol wael. (Bu farw drannoeth. Ef yn dad yng nghyfraith Nest, merch W.J. ac Enid. Gwilym Rhys weithiodd englyn coffa Mrs Jones (gwraig W.J.) a fu farw Haf 1989) Canmolodd W.J. ysgrif Keri Edwards ar gyfer Rhaglen y Dydd - siwrne ddiwylliedig o gwmpas y Cwm.

26ain o Fawrth 1990 - cyfarfod olaf dosbarth W.J. am y tymor. Penderfynodd ddal ati'r tymor nesa. Y maes llafur fydd Hanes a Llenyddiaeth Cwm Rhymni, llyfr Gareth Pierce a Chyfansoddiadau y Genedlaethol 1990.

6ed o Ebrill 1990 - Bu W.J. a minnau yn angladd Mrs Eleanor Richards, Lluest Wen, Hillside, Caerffili. Bu'n aelod o'r dosbarth o fis Medi 1973 hyd fis Mawrth 1989. Am wraig ddiwylliedig - pleser oedd bod yn ei chwmni.

18fed o Fai 1990 – Galw yn Swyddfa'r Eisteddfod. W.J. a Lois wrthi'n paratoi Cyfansoddiadau a Beirniadaethau'r Genedlaethol. Ni euthum yn agos atynt!

*Llongyfarchiadau gwresog i Doctor Elin Jones wrth i'w chyfrol wych, Hanes yn y Tir, gyrraedd Rhestr Fer Gwobrau Tir na n-Og. Hefyd, rydym yn dathlu'r ffaith fod ein Senedd Genedlaethol wedi sicrhau copi o'r llyfr ar gyfer pob un ysgol yng Nghymru. Deallwn y bydd 10,000 o gopïau yn cael eu dosbarthu fel hyn Nawr gallwn fynd ati i ddysgu Hanes Cymru i'n plant!*



# Rhestr Fer Gymraeg  Gwobrau Tir na n-Og 2022


Dirgelion, anturiaethau a direidi cyffrous... golwg ffres ar hanesion a chymeriadau Cymru... a straeon pwerus a grymusol am dyfu i fyny yng Nghymru heddiw. Bydd Cyngor Llyfrau Cymru yn datgelu'r llyfrau Cymraeg sydd wedi cyrraedd rhestr fer Gwobrau Tir na n-Og ar raglen *Heno* ar S4C nos Iau, 10 Mawrth. Mae'r gwobrau eleni yn gymysgedd eclectig o'r gorau o straeon o Gymru a straeon am Gymru a gyhoeddwyd yn 2021.

Gwobrau Tir na n-Og yw'r gwobrau hynaf a mwyaf poblogaidd o'u bath ar gyfer llenyddiaeth plant a phobl ifanc yng Nghymru. Caiff y gwobrau eu trefnu'n flynyddol gan Gyngor Llyfrau Cymru a'u noddi gan CILIP Cymru. Maent yn anrhydeddu ac yn dathlu'r awduron a'r darlunwyr mwyaf creadigol a'r deunyddiau darllen gorau i blant, naill ai yn y Gymraeg, neu drwy gyfrwng y Saesneg gyda dimensiwn Cymreig dilys.

Dros y blynyddoedd, mae'r gwobrau wedi'u hennill gan rai o'n prif awduron a darlunwyr gan gynnwys Manon Steffan Ros, Jac Jones, Caryl Lewis a Gareth F. Williams. Nod y gwobrau ydy dathlu darllen er pleser ac ysbrydoli dewisiadau darllen i ddarllenwyr ifanc. Trwy'r gwobrau gall plant a phobl ifanc fwynhau a chael eu hysbrydoli gan straeon ac ysgrifennu o Gymru neu am Gymru.

## Rhestr Fer Cynradd

***Gwil Garw a'r Carchar Crisial***, Huw Aaron, Llyfrau Broga
Llyfr llawn doniolwch, digwyddiadau dychmygus, bwystfilod arbennig, a phrif gymeriad sydd rhywsut yn gallu goroesi pob trallod ac anhrefn.
***Sara Mai a Lleidr y Neidr***, Casia Wiliam, Y Lolfa
Stori sy'n gafael o'r cychwyn cyntaf, yr ysgrifennu yn gelfydd, yn gymesur ac yn meddu ar hiwmor rhwydd.
***Gwag y Nos***, Sioned Wyn Roberts, Atebol
Stori lawn antur sy'n hoelio sylw'r darllenydd o'r paragraffau cyntaf, ac yn portreadu byd estron y Wyrcws yn gynnil ac yn afaelgar.




## Rhestr Fer Uwchradd

***Hanes yn y Tir***, Elin Jones, Gwasg Carreg Gwalch
Cyfrol hardd sydd, yn symlrwydd y cyflwyniad a'r ieithwedd, yn gwneud hanes cymhleth yn hygyrch i'r darllenydd.
***Y Pump***, gol. Elgan Rhys, Y Lolfa
Casgliad o straeon heriol ac arbrofol sy'n cydblethu i greu un cyfanwaith ardderchog.
***Fi ac Aaron Ramsey***, Manon Steffan Ros, Y Lolfa
Nofel gyfoes a gafaelgar sy'n cyflwyno cymeriadau real o gig a gwaed sy'n taro tant gyda darllenwyr ifanc heddiw.

Bob blwyddyn, mae paneli annibynnol yn penderfynu ar y rhestrau byrion ac yn dewis yr enillwyr ar gyfer y gwobrau Cymraeg a Saesneg. Y beirniaid ar y panel Cymraeg eleni oedd Alun Horan (Cadeirydd), Morgan Dafydd, Sara Yassine a Ceri Griffith – rhai sydd â phrofiad helaeth ac angerdd ynglŷn â llenyddiaeth i blant.

# Dyfodol Ein Hysgolion Cymraeg

Cafodd trigolion Sir Caerffili gyfle cyn y Nadolig  i gynnig sylwadau ar gynlluniau'r awdurdod ar gyfer darpariaeth addysg Gymraeg am y ddegawd nesaf. Mae'r cynigion hyn bellach wedi'u cadarnhau gan Gabinet y Cyngor. Dyma'n fras y datblygiadau sydd ar y gweill, tra bod sawl prosiect arall wedi'i ddechrau eisoes.

Bwriad y Cyngor Sir yw cynyddu'r nifer o blant sy'n derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg i 26%-30%.  Mae hyn yn cynnwys cynigion ar sut y gall ein pobol ifanc ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd  ac yn eu gwaith beunyddiol.

Mae'r cyngor am fuddsoddi £6.4 miliwn ar gyfer addysgu'r iaith Gymraeg mewn ymgais i gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg yn y fwrdeistref,  hwn yw'r Cynllun Strategol Addysg Gymraeg. Mae'r arian wedi'i neilltuo ar gyfer ymestyn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y sir a dyma sut fydd £6.4 miliwn yn cael ei wario:

£1.8m Ysgol Y Castell mis Ionawr  2021.
£496k Ysgol Ifor Bach sydd i'w gwblhau erbyn mis Hydref 2022.
£1.63m Ysgol Bro Allta sydd i'w gwblhau erbyn mis Rhagfyr  2022.
£740k Ysgol Penalltau sydd i'w gwblhau erbyn December 2022.
£1.62m Ysgol Gymraeg Cwm Derwen sydd i'w gwblhau erbyn mis Chwefror 2023.

Un o amcanion y strategaeth yw bod 30% o blant oed 5-6 yn dod i siarad y Gymraeg. Mae'r  adroddiad, hefyd yn datgan  bod swyddogion yn edrych ar gyfleoedd pellach i  ariannu ar gyfer addysg Gymraeg.

Dywed Cynghorydd Plaid Cymru dros Gwm yr Aber, John Roberts: "Mae'r cyngor yn gefnogol i Ysgolion Cymraeg ond mae ganddynt ddyletswydd i fod yn gefnogol. Does dim pwynt rhoi bwcedaid o arian i'r Gymraeg os nad ydynt yn darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith. Rhaid i'r cynghorwyr arwain drwy esiampl drwy gofleidio'r Gymraeg."

Ond mae'r Cynghorydd yn obeithiol am ddyfodol yr Iaith.   Dywedodd fod y Fenter Iaith, y sefydliad sydd yn hyrwyddo'r iaith, yn chwarae rhan arwyddocaol i annog defnydd yr iaith o fewn ein cymunedau. Falle bod angen gweld mwy  o'r clybiau ieuenctid lleol ac yn y blaen, sydd gennym o gwmpas y sir, yn denu mwy o weithiwr dwyieithog, er mwyn rhoi'r cyfle i ddisgyblion sy'n mynychu addysg Gymraeg (ac eraill) i siarad yr iaith y tu allan i waliau'r ysgolion.

Ymateb RhAG (Rhieni Dros Addysg Gymraeg), yn bennaf oedd gofyn am ddarpariaeth yn ein hysgolion i ddechrau denu disgyblion hŷn tuag at yrfa mewn addysg. Codwyd hyn yn y Senedd gan Delyth Jewell a chafodd y syniad dderbyniad addawol. Mynegodd RhAG hefyd bryder am fod nifer disgyblion safle'r Gwyndy, ar y cyfan, yn amharod i fynd ymlaen i'r Chweched Dosbarth i fyny yng Ngellihaf. Teimlir nad yw'r disgyblion hyn, wrth iddynt gyrraedd 16, yn teimlo fod Gellihaf a'r Gwyndy yn teimlo fel un ysgol. Ac eto mae'r ddwy safle yn cynnal gweithgareddau i geisio hyrwyddo undod.  Hefyd, er bod Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn cyflwyno ystod  eang ac amrywiol  o bynciau, mae yna her fawr oddi wrth golegau addysg bellach sydd hefyd yn cystadlu am y disgyblion hyn.

Cofiwn fod Llywodraeth Cymru yn anelu at gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 mewn strategaeth a lansiwyd yn 2017. Hefyd, dywed y Swyddfa Dros Ystadegau Cenedlaethol (ONS) mai 25.4% sy'n siarad Cymraeg ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Dywedir mai'r cyfartaledd yng Nghymru gyfan yw 29.2%

Mae'n amlwg fod y frwydr dros yr iaith lawer mwy iach yn ein sir ni, beth bynnag, nag yw mewn nifer o fannau eraill.

# Bryn Bach

Roedd yr ardal Bryn Bach yn gyfoethog o fwynau fel  haearnfaen, glo a chalchfaen, a oedd i gyd yn agos i'r wyneb. Cloddiwyd yr ardal gyntaf gan ddefnyddio'r system cytiau, dechreuodd y gwaith cytiau yma yn 1747 pan gludodd John Griffiths haearnfaen a glo ar gefn mul i Aberhonddu, Clydach a Dowlais. Gweithiodd menywod a dynion yma yn y cytiau ochr yn ochr.

Cytiau ydy system lle mae'r mwyn sy jest dan wyneb y ddaear yn cael ei gloddio.



*Y Cytiau*

Cyflymodd mwyngloddio yma, ar ôl agor gwaith haearn Sirhywi yn 1778, a gwaith haearn Tredegar yn 1800, ac yn 1815 agorodd y lefelau glo, Cefn Rhos a Bryn Oer. Yna wrth gwrs roedd angen adeiladu tramffordd i gludo'r glo i'r gamlas yn Nhal y Bont, felly adeiladwyd tramffordd  Bryn Oer.

Ym 1818 cloddiwyd pwll Bryn Bach i gyflenwi dŵr i'r gwaith haearn ar gyfer y peiriannau stêm.

Nid  Bryn Bach oedd yr unig le i ddioddef oherwydd ei gyfoeth mewn glo a haearn yn ystod y 1800au; roedd yr ardal gyfan yn llawn o byllau glo, lefelau, pyllau bwydo i gyflenwi'r gweithfeydd haearn â dŵr. Roedd  ffyrdd tramiau ym mhobman. Cai'r gwastraff o'r gweithfeydd hyn ei ddympio yn unrhywle, ac ym mhobman; doedd dim cynllunio o gwbl

Ym mis Ionawr 1846 fe darodd storm ofnadwy'r ardal, torrodd glannau pwll Bryn Bach, gan anfon llifeiriant o ddŵr i mewn i ffordd Merthyr. Cafwyd llifogydd ym mhwll glo Bryn Bach, boddwyd dau geffyl, a dinistriwyd nifer o bontydd gan y llifogydd. Y bore canlynol darganfuwyd menyw oedrannus, yn dal yn ei gwely, wedi boddi. Roedd y pwll glo ar gau am wythnosau nes ei bod yn ddiogel i weithio yno eto.



*Streicwyr yn gweithio'r cytiau yn ystod streic 1926*

Roedd y cytiau  yn hoff fannau ar gyfer pethau fel ymladd migwrn noeth. Gallai'r ymladd yma bara am oriau, hyd yn oed ddyddiau weithiau a byddent yn ymladd nes i un ohonynt ildio. Fel arfer, byddai'r ymladd rhwng pencampwyr o ardaloedd gwahanol o Dredegar, ond weithiau rhwng pencampwyr o drefi eraill.

Cynhaliwyd digwyddiadau eraill yma hefyd, fel rasio troednoeth, ymladd daeargi, ymladd ceiliogod, gyda llawer o fetio ar ganlyniad yr ymladd.

*/Trosodd*

Gyda datblygiad o byllau glo dwfn, trodd dynion o gytiau i weithio yn y pyllau dwfn.

Roedd yr Arglwydd Tredegar yn berchen nid yn unig y tir o gwmpas Bryn Bach, ond y rhan fwyaf o'r tir o amgylch Tredegar ei hun. Roedd yr Arglwydd Tredegar yn berchen yr holl dir un ochr i'r Afon Sirhywi a'r Dug Beaufort y tir yr ochr arall, felly roedd Bryn Bach ar dir yr Arglwydd Tredegar. Prynodd y teulu Samuel fferm Bryn Bach oddi ar Arglwydd Tredegar, ac roedd Margaret Samuel, sy'n aelod o grŵp Cymraeg Tredegar, a'i gŵr yn byw yno nes i'r NCB (Y Bwrdd Glo Cenedlaethol) agor pwll glo brig yno. Yn ystod streic 1926 dechreuodd streicwyr lleol weithio'r cytiau eto


*Y Parc ar ei Newydd Wedd*

Ar ôl trychineb Aberfan ym 1966, digwyddodd adfer tir ar raddfa fawr ar draws maes glo De Cymru.
Gwelodd Bryn Bach waith helaeth yn cael ei wneud yn adennill y tir o greithiau'r glo brig a'r gwastraff a wasgarwyd ym mhobman. Plannwyd cannoedd o goed yma, a chafodd llyn prydferth ei greu gyda thair ynys goediog arnynt. Lle roedd y glo brig yn arfer bod, nawr mae'na lyn prydferth, ar y llyn mae'na bob math o hwyaid, gwyddau Canada ac elyrch, ac wrth gwrs mae'n lle poblogaidd iawn ar gyfer pysgota.

Dyma le sydd wedi dioddef oherwydd difrod y diwydiant glo ac wedi cael ei newid yn barc gwledig, lle hardd iawn, lle mae miloedd o bobl yn dod bob blwyddyn i'w fwynhau.

Y peth diddorol am Dredegar ydy ei gysylltiad â rhyfel cartref America. Cyflenwodd gwaith haearn Tredegar fwy na hanner yr arfau a ddefnyddiwyd gan y fyddin Cydffederal yn ystod rhyfel cartref America, roedd hefyd yn cyflenwi'r platio haearn ar gyfer CSS Virginia, y llong rhyfel Gydffederal gyntaf.



Ond nid Tredegar De Cymru ydy hwn, ond Tredegar yn Richmond Virginia De America, a gafodd ei enwi ar ôl y peiriannydd Rhys Davies o Dredegar, De Cymru.

Hyfforddodd Rhys Davies fel peiriannydd mewn gwaith haearn yn Nhredegar, De Cymru, yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn 1833 cafodd ei recriwtio i fynd i Richmond yn Virginia i ddylunio ac adeiladu gwaith haearn. Yno, aeth e â nifer o weithwyr o Dredegar gyda fe, cafodd y gwaith ei orffen ym 1837 ac roedd y gwaith mor llwyddiannus cafodd y lle'r enw Gwaith Haearn Tredegar, er anrhydedd i'r lle y daeth e ohono. Lladdwyd e ym 1838.

Ond daeth y gwaith haearn yn Nhredegar yn Richmond Virginia i fod y mwyaf yn nhaleithiau Cydffederal America.

Lluniau o'r cytiau, a streicwyr yn gweithio'r cytiau yn ystod streic 1926, a llun o'r ardal heddiw.

*Malcolm David*

***Bydd ein darllenwyr yn cofio mai ym Mryn Bach y cynahliwyd Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni yn 1990***

# Newyddion Ysgol Penalltau









## Ein Hardal Leol

Y tymor hwn mae Blwyddyn 2 wedi bod wrth eu bodd yn dysgu am yr hyn sydd yn ein milltir sgwâr. Fel rhan o waith y dosbarth mae'r disgyblion wedi bod yn dysgu am hanes pwll glo Penallta a sut y mae'r tirwedd a'r tirlun heddiw wedi newid dros y blynyddoedd i'r hyn rydym yn ei adnabod heddiw.

Mae'r disgyblion wedi bod yn astudio hen ffotograffau a mapiau o'r ardal leol ac wedi mwynhau darganfod sut y mae'r pwll glo yn rhan mor bwysig o hanes yr ysgol a'n cymuned. Aethom ar drip i Barc Penallta i weld sut y mae'r parc yn dal i ddangos hen olion o'r dyddiau a fu. Gwelsom hen drac y trên a sylweddoli taw pentyrrau o lo gwastraff sydd o dan y gwair yn y parc. Ein bwriad nawr yw creu darn o gelf 3D i ddathlu a rhannu'r hyn rydym wedi'i ddarganfod am yr hyn sydd wrth ddrws yr ysgol.




## Peiriant Fendio/ Dosbarthu Llyfrau Ysgol Penalltau

Fel rhan o waith siarter iaith yr ysgol mae pwyllgor y Dreigiau wedi meddwl am ffordd unigryw iawn o hybu Cymreictod yn yr ysgol - Peiriant fendio! Ond nid peiriant sy'n rhoi losin - peiriant sy'n dosbarthu LLYFRAU CYMRAEG!! Yn dilyn cyfarfod gyda Mrs Woods i ofyn am gyllid, aeth y pwyllgor ati i archebu a chynllunio golwg y peiriant fendio. Mae disgyblion yr ysgol yn cael y cyfle i ennill llyfrau os ydynt wedi cwblhau pob her a osodwyd gan y Dreigiau dros gyfnod o 2 fis, neu fel rhan o wobr Cymreictod wythnosol yr ysgol. Mae'r peiriant wedi bod yn llwyddiannus iawn gyda sawl disgybl yn ennill llyfrau a sawl cyhoeddwr wedi anrhegu llyfrau i'r peiriant. Am syniad gwych gan y Dreigiau i hybu'r Gymraeg!

## Menter Busnes Bl.2- Canhwyllau Corachod

Cyn y Nadolig bu Blwyddyn 2 yn brysur yn creu a gwerthu canhwyllau fel rhan o gystadleuaeth ‘ Y Criw Mentrus’.  Fel rhan o’r fenter, roedd yn rhaid i ni feddwl am enw a logo i'r cwmni yn ogystal â chynllunio, creu a gwerthu’r cynnyrch. Bu’r plant yn gweithio’n ddiwyd i greu dros 50 cannwyll yn barod ar gyfer eu gwerthu cyn y Nadolig. Bu’r fenter yn un llwyddiannus iawn a gwerthwyd pob cannwyll! Cafwyd llawer o hwyl yn eu gwneud ond dysgwyd llawer am bwysau rhedeg busnes - yn enwedig un sydd yn paratoi cynnyrch i'w werthu cyn prysurdeb y Nadolig.





## Llwybr Snoopy – Dogs Trust

Eleni, mi fydd yna nifer o gŵn arbennig yn ymddangos o amgylch Caerffili fel rhan o’r llwybr Snoopy a drefnir gan Dogs Trust. Bu Blwyddyn 4 yn brysur iawn yn cynllunio a chreu ein ci arbennig ni. Ar ôl clywed am waith arbennig Dogs Trust, roedd ein Pwyllgor Iechyd a Lles yn awyddus iawn i gefnogi, felly aethant ati i drefnu Taith Gerdded Noddedig i’r holl ysgol. Llwyddom ni i godi dros £800. Cofiwch i edrych allan am ein Snoopy unigryw o Ebrill yr 8fed ymlaen!!




## Teithiau Preswyl - O’r diwedd!

Ar ôl dwy flynedd heriol, roedd yn bleser mynd â’n disgyblion ar deithiau preswyl unwaith eto.

Aeth disgyblion Blwyddyn 5 a 6 i ganolfan Llyn Abernant yn Llanwrtyd. Roedd y daith yn un brysur gyda llu o weithgareddau; gan gynnwys saethyddiaeth, abseilio, saethu, llwybr dall, rhaffau isel, a chanŵio. Roedd pawb wrth eu boddau yn trio sgiliau newydd - er bod nifer o goesau gwlyb a wynebau mwdlyd!

I Fae Caerdydd yr aeth Blwyddyn 4, i aros yng Nghanolfan yr Urdd. Dyma’r tro cyntaf i nifer o’r plant fod oddi cartref ac roedden nhw’n nerfus ond yn gyffrous iawn! Er taw noson yn unig yr oedden ni yno, llwyddwyd i wasgu nifer helaeth o weithgareddau hwyl i mewn - fel sinema, Bowlio 10, taith ar gwch ac ymweliad â’r Bathdy Brenhinol yn Llantrisant i weld arian yn cael ei greu.

Roedd y cyfle i fod gyda ffrindiau a dod i adnabod yr athrawon tu allan i waliau’r ysgol yn amhrisiadwy!







# Cyfaill Newydd yn y Gegin

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rwy wedi sylwi ar y cynnydd yn y nifer o brydiau "un plat" sy'n cael eu disgrifio yng ngholofnau coginio'r papurau newydd. Dyma rywbeth newydd i fi –holl gynhwysion pryd yn cael eu rhoi mewn tun rhostio neu ryw ddysgl tebyg a'u rhoi gyda'i gilydd i bobi yn y ffwrn. Dull ffasiynol iawn o ddigoni a gweini pryd o fwyd – a dim ond un llestr i'w olchi ar y diwedd.

"Jiw! Difyr iawn" meddyliais i, a pharhau i goginio'r hen ffefrynau. Ac yna, am y tro cyntaf ers dros ddwy flynedd, daeth ffrind i aros dros nos. Mae'r ffrind hon yn ofalus iawn o'r hyn mae hi'n ei fwyta – dim cig coch, dim ond pysgod neu ffowlyn; dim gormod o fraster na charbohidrad; dim gormod o ffeibr na ffrwythau asidig. Mae ei chwmni'n bleser: mae ei bwydo'n broblem!




Ar ben hynny, fyddai dim llawer o amser gen i i baratoi a choginio'r swper ar y noson yr oedd i gyrraedd. Bues i'n crafu 'mhen, a phori yn y llyfrau rysait sydd gen i, o Mrs Beeton i Delia Smith, ond doedd dim byd yno yn ateb y cwestiwn. Yna meddyliais am y ffasiwn newydd o baratoi pryd o fwyd. A fyddai modd darganfod rysait i gwrdd â'r gofynion? Felly dyma fi'n dechrau pori ar y we – does dim cyfeiriad at y ffasiwn newydd hwn yn yr hen gyfeillion sydd wedi cadw cwmni i fi yn y gegin ers blynyddoedd.

Ac ar unwaith neidiodd rysait delfrydol i'r golwg: darnau o eog wedi eu pobi ar ben haen o lysiau. Perffaith! Ac fe brofodd yn bryd blasus a derbyniol iawn i'm gwestai hefyd.

Felly, os nag ydych chi, ddarllenwyr soffistigedig CwmNi, eisoes yn hen gyfarwydd â'r dull newydd, hynod o syml a di-ffws, o baratoi pryd o fwyd blasus, rhowch gynnig ar hwn:

*Ar gyfer dau berson, fe fydd angen tun rhostio gweddol ei faint, a ffwrn wedi ei gwresogi i 180C. Irwch y tun gydag olew olewydd, ac ynddo rhowch y canlynol, wedi eu torri'n darnau:*

*Un pupur coch ac un pupur melyn, y ddau wedi eu torri'n stribedi*

*Un wynwnsyn, wedi ei chwarteru, ac un darn o arlleg, wedi ei dorri'n ddarnau*

*Un courgette, wedi ei hanneru a'i dorri'n ddarnau trwchus*

*Arllwyswch lond dwy lwy bwrdd o olew olewydd dros y cyfan, ac ychwanegwch perlysiau, halen a phupur mâl yn ôl eich dymuniad.*

*Rhowch y cyfan yn y tun rhostio, ei gymysgu'n dda gyda'i gilydd, a'i roi yn y ffwrn am 20 munud. Trowch y llysiau o bryd i'w gilydd.*

*Yna cymrwch y tun o'r ffwrn, ac ychwanegwch ddwy gangen o domatos bach, a rhowch y darnau eog i orffwys arnynt. Croeso i chi ychwanegu rhagor o olew, perlysiau ac ati.*

*Rhowch y cyfan 'nôl yn y ffwrn am rwy 10 -12 munud ac yna – gweinwch a mwynhewch!*

Ie, mae'r rysait ar gyfer dau – ond mae'r ffrind wedi mynd adre erbyn hyn, ac felly, er eich mwyn chi, rwy wedi ail-greu'r pryd ar gyfer un, sef fi fy hun. Ac rwy wedi ei fwynhau eto, er taw cwmni sy'n rhoi gwir flas ar fwyd!

# Helo gwanwyn – ffarwel cêl?



A sut mae'r ardd ffrynt yn edrych erbyn hyn, ar ôl y driniaeth lem a gafodd fis diwethaf? Wel, mae llymder y gaeaf – a'r olwg anial ddilynodd driniaeth fy nghyfnither Siân – ill dau wedi diflannu nawr, a'r gwanwyn yn ei flodau yn ffrynt y tŷ ers wythnos a rhagor erbyn hyn. Braf iawn yw gweld y blodau bach yn agor i'r haul, ac fel petaent yn ymfalchïo yn yr awyr agored ar ôl eu caethiwed hir dan dyfiant gwyllt y chweinllys (*Erigeron karvinskianus*) y soniais amdano yn y rhifyn diwethaf.



Ond mae blodyn arall ar fin agor yn yr ardd lysiau yng nghefn y tŷ, a blodyn sydd – hyd y gwn i - yn dynodi diwedd tymor tyfiant, nid ei ddechrau. Ie, mae blagur ar y cêl! Mae cêl yn perthyn i deulu'r *brassica*, y gair sy'n dynodi bresych o bob math. O'r gair Lladin hwnnw y daeth *bresych* i'r Gymraeg. Ac fel rwy'n deall pethau – ac mae croeso i unrhywun fy nghywiro – unwaith mae planhigyn o'r teulu hwnnw yn dechrau blodeuo mae'n arwydd ei fod wedi gorffen ei ddatblygiad, ac yn paratoi i ffurfio hadau cyn marw. Ar hyn o bryd mae modd twyllo'r hen gêl i dyfu rhagor o ddail trwy dorri'r blodau allan, ond dim ond dros dro fydd y dull hwn o estyn oes y planhigyn yn llwyddo. Rhaid i fi baratoi i ffarwelio â'r cêl – o'r diwedd!



Wrth i'r dyddiau ymestyn a'r dymheredd godi, mae planhigion eraill yn dechrau ymateb i droad y flwyddyn – a chwyn yw'r mwyafrif o'r rhain, gwaetha'r modd. Ond mae syrpreis ymhobman yn y gwanwyn, ac un ohonynt yw'r blodau annisgwyl hyn. Des i o hyd i lwyth o fylbiau bach bach yn y pridd flwyddyn a hanner yn ôl. Plannais i nhw fel arbrawf, i weld beth fyddai'n dod ohonynt. Dim ond dail ddaeth ohonynt y llynedd, ond eleni mae rhai wedi dechrau bwrw blodau! Syrpreis lliwgar a phersawrus. Tybed a ddaw mwy o flodau – a blodau mwy – o'u bwydo a gofalu amdanynt eleni?

Ond cyn hynny, rhaid mynd ati i balu a chwynnu a thocio a phlannu: mae gwaith yr ardd.

## Tribannau'r Ardal

**Mae mwy ar dudalen 19**

Mae Pontypridd fel gwyddys,
Mewn hen gwm cul trafferthus
Ond mae y bont sy'n croesi'r pant
Yn meddu *cant* echrydus.

Mae Pontypridd yn hynod
Hi faedda naw rhyfeddod,
Un bwa'n uno gwlad wrth wlad
O draw fel bwa'r Drindod.

Paid byth â mynd ar amnaid
I fysg ymladdwyr diriaid
Yn ffair Llandaf: oddi yno cyrch
Wa'th gwŷr Pentyrch yw'r diawliaid.

Mae'n bwrw glaw'n y Blaenau,
Mae'n pigo yn y Rhondda
Mae'n cwnnu'n braf ar bont Llandaf:
Mae'n heulwen haf ym Mryste.

# Medd a fi ...Meddaf i

*Clive Williams*

Bryngaer Gaer Fawr, gwlad y Silwriaid: Tu allan, mae'r glaw trwm, a chwythwyd gan wynt y gogledd iasoer, yn rhagflaenu dyfodiad y gaeaf. Tu mewn, yn gynnes ac yn sych, yn glyd yng nghysur y tŷ crwn mawr, mae dynion a merched y Silures yn ymgynnull i ddathlu Calan Gaeaf ... gŵyl treigl yr haf i'r gaeaf …hanner golau'r flwyddyn yn mynd i hanner tywyll y flwyddyn. Amser o ddisgwyl, a hefyd o ofn. Yn yr un modd â chylch natur, wrth i'r coed golli eu dail, felly hefyd y mae dynolryw yn dadlwytho ei holl fagiau digroeso ...ac yn rhyddhau ei enaid rhag ofnau ac agweddau. Adeg o ddathlu …gyda llawer o wledda, yfed, adrodd straeon a dawnsio …y cyfan yn ysgafngalon! Mae llawer iawn o felomel a meddyglyn yn cael eu cwafftio. Ac wrth i fwy a mwy o'r neithdar gael ei yfed, felly mae'r cwmni'n dod yn fwyfwy afieithus ...a'r medd yn dechreu siarad!



Mae Claude Lévi-Strauss yn dadlau o blaid dyfeisio medd fel arwydd o'r pasio 'o natur i ddiwylliant'. Mae medd wedi chwarae rhan bwysig yng nghredoau a mytholeg rhai pobl. Ysgrifennodd Taliesin y 'Kanu y med' neu 'Canu y medd'. Adleisir yfed chwedlonol, gwledda ac ymffrost rhyfelwyr yn neuadd y medd 'Dyn Eidyn' (Caeredin heddiw), ac yn y gerdd epig' Y Gododdin'. Roedd gan gymdeithasau hynafol eu duwiau arbennig eu hunain ar gyfer diodydd meddwol: Roedd gan y Groegiaid Dionysus; roedd gan y Rhufeiniaid Bacchus; ac i beidio â chael eu rhagori, roedd gan y Celtiaid Brythonaidd Brâg, o'u henw y cawn y gair 'bragu'...a'u hoff ddiod heb amheuaeth oedd medd. Roeddent yn bobl ddyfeisgar, ddim yn fodlon ar bethau arferol, buont yn arbrofi trwy ychwanegu at eu medd amrywiol fathau o berlysiau a sbeisys gwyllt a ddarganfuwyd yn tyfu o'u cwmpas i greu melomel a meddyglyn. Ychwanegwyd sbeisys at y sylfaen mêl o melomel, a byddai sylfaen mêl meddyglyn wedi ei flasu â pherlysiau.

Roedd yr Hen Geltiaid yn sicr yn gwybod sut i fwynhau bywyd. Mae'r neithdarau blasus hyn oedd mor annwyl iddyn nhw nid yn unig wedi cael eu pasio i lawr trwy gefnforoedd amser, maen nhw wedi dod â'r hen eiriau ac enwau yr ydyn ni'n eu defnyddio heddiw gyda nhw:
'Mel' yw 'ffrwyth y wenynen' gludiog melys.
Mae 'Melys' yn 'melyster' neu 'persain'
Gwin mêl yw 'medd'...yfwch ormod byddwch yn 'meddwi'.
'Melomel' yw 'mêl o fêl' neu 'melyster o felyster'.
Mae 'meddyglyn' yn deillio o 'meddyg' + 'llyn' ... gwirod iachusol ...tonig yn yr oes a fu!


Fel un sy'n diddori mewn hanes mae gen i fwy o ddiddordeb mewn bywyd fel yr oedd na dyddiadau ar y calendr yn unig. Felly mae sut roedd pobl yn byw eu bywydau bob dydd, a phopeth a oedd yn cyd-fynd ag ef, yn wirioneddol ddiddorol i mi. Cyd-ddigwyddiad yn unig yw bod y Celt heddiw yn caru ei fedd hefyd! Rwy'n hoffi bod yn anturus, a dyna pam arbrofais a chreu gwinoedd mêl blasus fy hun:
Mae fy medd yn llawn ac yn aeddfed gyda blas mêl melys wedi'i ategu gan is-dôn sitrws ... dau flas mewn un.

Mae gan fy melomel, fel fy medd, ei hanfod ei hun gyda thrwyth ambrosial amlwg o ffrwythau ...tri blas mewn un. Mwyar duon a llusi duon bach yw fy ffefrynnau.
Mae fy meddyglyn yn amrywio o'r melomel gyda'i gyfeiliant hynod flasus o berlysiau neu sbeisys ... tri blas mewn un. Nytmeg a rhosemari yw fy ffefrynnau.

*/Trosodd*

Mae gwneud gwin yn ffurf ar gelfyddyd (mae rhai yn dadlau ei fod yn grefft) sy'n cymryd amser ac sy'n gofyn am amynedd i gael canlyniadau perffaith. I symleiddio, a chyflymu'r broses, rwyf wedi creu gwin mêl y 'dyn di-og' ... cymryd medd archfarchnad rhad ac ychwanegu'r pethau ychwanegol angenrheidiol i gynhyrchu medd, melomel a meddyglyn derbyniol iawn. Rwy'n fwy na bodlon gyda'r canlyniadau rwyf wedi'u cyflawni; cymaint fel fy mod wedi rhannu fy nghyfrinachau yn fy llyfr 'How to Make Mead, Melomel and Metheglin at Home' sydd ar gael gan Amazon. Os hoffech chi roi cynnig ar fy ryseitiau ...a'u hoffi ... beth am fod yn anturus eich hun! Gallaf eich sicrhau bydd eich amser ac ymdrech yn cael eu gwobrwyo ganwaith!

Iechyd da!




Byddwn ni'n anghofio weithiau pa mor lwcus ydyn ni ein bod ni'n gallu siarad Cymraeg. Am fraint. Mae hi'n hawdd digalonni am ei dyfodol, ond mae 'na gymaint o enghreifftiau o siaradwyr yn ymhyfrydu ynddi ac yn prysuro i'w defnyddio.

Dyna sy'n rhoi cymaint o bleser i ni fel aelodau Ymddiriedolaeth William Salesbury – cael cefnogi a dathlu ein pobl ifanc sydd wedi dewis astudio eu haddysg ôl-16 trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

Gweledigaeth y diweddar Dr Meredydd Evans – Merêd i'w gyd-Gymry – oedd y gronfa. Ei nod – galluogi pobl Cymru i gefnogi'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol mewn ffordd ymarferol.

Cafodd yr ymddiriedolaeth ei henwi ar ôl William Salesbury, cyfieithydd y Testament Newydd i'r Gymraeg yn 1567, oherwydd iddo annog ei gyd-Gymry yn ei ymadrodd 'Mynnwch ddysg yn eich iaith.'

Sefydlwyd y gronfa yn 2012 a darparodd naill ai ysgoloriaethau neu wobrau i ryw ddwsin o fyfyrwyr hyd yn hyn.

Mae'r Coleg Cymraeg yntau yn mynd o nerth i nerth ac wedi derbyn cefnogaeth sylweddol ychwanegol yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru.

Mae cyfraniad yr Ymddiriedolaeth i'r gwaith hwnnw yn fodd o ategu'r genhadaeth a rhoi hwb ychwanegol i'r genadwri. Mae'n dangos hefyd fod yna bobl ledled Cymru yn awyddus i ddangos eu cefnogaeth nhw i'r gwaith trwy gyfrannu yn ariannol mewn amryfal ffyrdd.

Crëwyd y gronfa trwy:

- Gynnal digwyddiadau
- Annog unigolion i gyfrannu yn rheolaidd trwy orchymyn banc neu trwy gyfraniadau unigol
- Apelio at gyrff Cymraeg, a'u haelodau, i gyfrannu

Y llog o Gronfa Fuddsoddi yr elusen

Os hoffech chi gyfrannu at y gronfa gallwch gysylltu yn uniongyrchol â'r Trysorydd, Arwel Jones ar rocetarwel@yahoo.com. Os hoffech chi i un ohonom ddod i siarad â'ch cymdeithas neu gymuned, rhowch wybod trwy e bostio ysgrifennydd@cronfasalesbury.org

Yr ydym ni, yr Ymddiriedolwyr presennol, yn awyddus i ychwanegu o leiaf ddau ymddiriedolwr newydd at ein rhengoedd. Ceir manylion ar wefan y Coleg Cymraeg, ar wefan YWS neu ceir manylion gan y Trysorydd.

Yn gywir,

Ann Beynon (Cadeirydd), Rhian Huws Williams (Ysgrifennydd), Arwel Jones (Trysorydd), John Gwilym Jones,

# Beth oedd hanes oriawr ’nhad?



Dyma drysor rwy’n ei wisgo’n aml iawn, ac un sy’n denu sylw hefyd oherwydd ei harddwch. Ond mae hanes i’r darn hwn o aur a dirgelwch yn perthyn iddo. Nid tlws ydoedd yn wreiddiol. Darn o oriawr oedd y sgwaryn aur pan ddaeth o’r gweithdy yn gyntaf.

Cefn yr oriawr sydd yn y golwg nawr, ond o’i throi drosodd, fe welwch beirianwaith y wats gwreiddiol.

Daeth gweddillion yr hyn oedd unwaith yn oriawr werthfawr i’r golwg pan aethpwyd ati i glirio cartref ’nhad ar ôl iddo farw. Roedden nhw wedi eu gwasgu i gefn drâr yn yr o’r ystafelloedd gwely. Doedd dim sôn am wyneb yr oriawr, na’r gwydr fu unwaith yn ei diogelu, nag unrhyw esboniad o’i chyflwr truenus. Mae tolciau amlwg ar gefn yr oriawr, a darnau bach miniog yn unig oedd yn weddill o’r dolenni bach aur fu unwaith yn cydio’r oriawr at y strapen o gwmpas garddwn ’nhad. Trysor a dorrwyd ac anghofiwyd ydoedd. Ond llwyddodd Andrew Berry, gemydd Ystrad Mynach, i droi’r gweddillion truenus hyn yn dlws hardd. Daeth yn drysor unwaith eto.




Mae’r geiriau ar gefn yr oriawr yn esbonio peth o’i hanes.  Anrheg priodas ydoedd, a roddwyd i ’nhad, ysgrifennydd cyfrinfa pwll Penallta, gan ei gydweithwyr yn 1943. Rwy’n siŵr ei fod yn drysor yng ngolwg ’nhad, yn arwydd amlwg o werthfawrogiad ei gydweithwyr. Serch hynny, does dim atgofion gen i ohono, a dwi ddim yn cofio neb yn sôn amdano. Dwi ddim yn cofio ’nhad yn ei wisgo, na neb yn cyfeirio at y niwed iddo.



Rhan o waith ’nhad trwy gydol ei yrfa oedd ymweld â’r rhannau o’r gweithfeydd glo a ystyrid yn beryglus, er mwyn darganfod natur a difrifoldeb y perygl honedig. A gafodd ei oriawr ei thorri yn ystod un o’r ymweliadau hynny? Roedd ’nhad dan ddaear yn ymweld â’r gweithfeydd ym mhwll Six Bells y diwrnod ffrwydrodd y pwll yn 1960: tybed a niweidiwyd yr oriawr y diwrnod erchyll hwnnw? Ond efallai, ac yn llawer llai dramatig, i’r oriawr gwympo o’i arddwrn a chael ei sathru dan draed gan ei esgidiau gwaith trymion. Neu efallai iddi gwympo mewn i un o’r peiriannau mawr pwerus oedd yn cael eu defnyddio i dorri a llwytho’r glo o’r 1960au ymlaen. Ond tybed a *fyddai* ’nhad wedi gwisgo oriawr mor werthfawr dan ddaear? Roedd yn hen gyfarwydd â pheryglon y gwaith, a’r creithiau glas ganddo i brofi hynny.

Nid oes neb yn fyw nawr sy’n gwybod hanes yr hen oriawr hon, ac felly ni chaf fyth wybod  ei hanes. Ond byddaf yn gwisgo’r tlws hardd gyda balchder arbennig, er cof am ’nhad, wrth gwrs, ond er cof hefyd am ei gydweithwyr ym Mhenallta - ac am y miloedd ar filoedd hynny fu’n gweithio a dioddef dan ddaear. Roedden nhw’n peryglu eu bywydau, ac yn eu colli weithiau, er mwyn ennill eu bara.

Ond mae dirgelwch oriawr ’nhad yn f’atgoffa hefyd bod gan y gorffennol ei gyfrinachau, a does dim modd eu datrys weithiau, er mor fanwl a gofalus ein hymchwil!

*Dr Elin Jones*

# Safana


Mae nofel Jerry Hunter yn dilyn hynt merch ifanc o'r enw Grasi, plentyn i gaethweision. Ond yr hyn sy'n ddiddorol oedd ei bod yn chwarae rhan bwysig yn y frwydr i gadw talaith Georgia yn "rhydd". Ac mae




"rhydd" yn y cyswllt hwn yn golygu talaith lle'r oedd caethwasiaeth yn anghyfreithlon. Mae'r nofel yn digwydd yn bennaf yn Safana, tref yn ne-orllewin talaith Georgia. Darllenwn am anturiaethau Grasi wrth iddi ddefnyddio'i chlyfrwch i glustfeinio ar gyfrinachau gelynion ei phobl. Y gelynion oedd y sawl oedd am barhau ag arferiad dieflig caethwasiaeth. Ymddengys mewn cuddwisg wedi'i gwisgo fel amryw gymeriadau: yn ferch fach ddiniwed, yn fachgen o gardotyn neu yn glerc parchus ac mae'n medru ar nifer helaeth o ieithoedd. A'r modd y mae'n gallu trawsnewid fel hyn yw, wrth gwrs, am mai angel yw hi. Mae ei phŵerau wedyn yn mynd mor bell a dod â Iolo Morganwg draw i'r America – yn rhithiol, wrth gwrs!

Ysbïo ar ran y 'Gymdeithas' sy'n ymgyrchu yn erbyn caethwasiaeth mae'r ferch ifanc ond er mor nobl mae'r bwriad yn fwy llym, "y rheol gyntaf a ddysgodd ar ôl (i Grasi) ymuno oedd bod ymddygiad didrugaredd a rheswm oeraidd ymysg arfau mwyaf pwerus Gwasanaeth Cyngor Safana." Mae galw am agwedd fel hyn oherwydd brwydro maen nhw yn erbyn "lladron dynion" sy'n dwyn gweithwyr croenddu o drefedigaethau rhydd i'w gwerthu yn y taleithiau caeth. Gelyn pennaf y mudiad, mae'n ymddangos, yw brenin Lloegr gan fod y trefedigaethau dan awdurdod y Goron yn gryf dros gaethwasiaeth.

Mae'r stori yn dechrau yn 1770, adeg allweddol yn hanes y wlad a adwaenwn heddiw fel Unol Daleithiau America. Ond, yn sicr, doedd y wlad ddim yn "unol" yr adeg hon. Nid Lloegr oedd yn rheoli'r holl drefedigaethau fel y gelwid y taleithiau'r adeg honno. Er enghraifft, Sbaen oedd yn rheoli Fflorida, drws nesa ac i'r de o Georgia. Arferid caethwasiaeth yn y ddwy dalaith i ogledd Georgia, sef De a Gogledd Carolina. A'r disgwyl oedd y byddai Maryland a Virginia yn ymuno a'r ddwy dalaith hynny petai rhyfel gan ochri â brenin Lloegr a oedd o blaid caethwasiaeth.




Roedd yr ymgyrchwyr a gefnogid gan Grasi yn ymwybodol iawn fod rhyfel ar y gorwel. Dywedir mewn un man fod Prydain a Sbaen ddim yn rhyfela mewn unrhyw fan arall yr adeg honno ac, felly, y byddent yn fwy parod ar gyfer rhyfel yr ochr draw i Fôr Iwerydd. Cofier i Ryfel Cartref America ddod yn 1775 gan barhau tan 1783. Yn ystod y cyfnod hwnnw daeth America yn wlad annibynnol, ar y 4ydd o Orffennaf 1776.

Roedd yn syndod i'r darllenwr hwn o ddeall i'r Methodist blaengar, George Whitefield, fod yn gryf o blaid caethwasiaeth. Mae'n debyg mai ei ddadl ef oedd bod yn rhaid i'w fentrau busnes yn y Byd Newydd dalu'r ffordd er mwyn gallu ariannu ei gartrefi ar gyfer plant amddifad. Mewn un o'r cartrefi hyn, Bethesda, y magwyd Grasi. Roedd cyd-Fethodist Whitefield, Wesley, wrth gwrs, yn dadlau'n gryf yn erbyn y fath safiad.

Roedd Rhyfel Cartref America eto i ddod bron ganrif yn ddiweddarach yn ystod 1861-1865 lle bu'r Unoliaethwyr *(Unionists)* yn brwydro i gadw America yn un wlad. Yr ochr arall roedd y Cynghreirwyr *(Confederates)* am gadw taleithiau'r de, yn bennaf, ar wahân, er mwyn gallu cynnal caethwasiaeth yn gyfreithiol. Rhagflas o'r gwrthdaro hyn a geir yn nofel Hunter.

Mae'r nofel yn wers werthfawr drwy roi hanes caethwasiaeth yn America. Hefyd, mae modd edmygu clyfrwch anturiaethau'r prif gymeriad, Grasi. Mae'r ddwy ffactor yn cyfrannu tuag at nofel anghyffredin ac unigryw – darllenwch hi.

# Merched y Wawr Gyda'r bonedd

Mor braf yw cael dod yn ôl i gwmnïa gyda'n gilydd unwaith eto! Ac mae dathlu ein nawdd sant yn gyfle i ddathlu hefyd y camau cyntaf allan o oerfel clo'r gaeaf ac unigrwydd y misoedd tywyll. Braf iawn felly oedd dod at ein gilydd eto am ginio yn hen faenordy Llancaeach ar Fawrth 16eg.

Nid yw'r feirws wedi gollwng ei afael yn llwyr eto, ac roedd yn hyfryd cael cwmni rhai sydd newydd wella ohono. Mawr yw'n diolch am y brechiad! Serch hynny, roedd ambell fwlch arall yn ein hatgoffa o beryglon y gaeaf a aeth heibio. Dymunwn adferiad iechyd llwyr a buan i'r aelodau hynny sy'n gaeth i'r tŷ.

Pleser arbennig oedd cael cwmni ein dwy Lywydd Anrhydeddus hefyd, sef Dorothy Morgan ac Eirlys Thomas.




Dyma'r tro cyntaf iddynt ymuno gyda ni ers y cyfarfod cyfareddol hwnnw ym mis Rhagfyr pan gawson nhw eu hanrhydeddu yn sŵn a swyn y delyn yng nghapel Tonyfelin, Caerffili. Hyfryd oedd gweld y ddwy yn gwisgo'r broetsys sy'n dynodi eu statws anrhydeddus!

Nid yn y plas ei hun yr oeddem ni ond yn hytrach yn ystafell wydr yr adeilad mawr a godwyd fel canolfan ymwelwyr wedi i'r cyngor brynu'r hen blasty yn y 1980au. Mae'n adeilad addas at ei bwrpas, ac mae llawer yn ei ddefnyddio – pan ro'n ni yno roedd grwp yn cwrdd yn y neuadd fawr a nifer yn cael cinio yn y bwyty.

Daeth nifer da o gangen Cwm Rhymni i ymgynnull o gwmpas y ford, fel y gwelwch o'r llun, a chawsom bryd da o fwyd hefyd. Roedd rhywbeth at ddant pawb, a phopeth yn flasus dros ben. Wrth i ni eistedd wrth y ford hir, yn bwyta, trafod a chwerthin, rhyfedd oedd meddwl sawl gwledd gafodd ei chynnal yn yr hen blas yn y dyddiau gynt. Byddai'r pryd wedi bod yn wahanol iawn, wrth gwrs – nid oedd sôn am tsili yn nyddiau'r boneddigion, na phasta a thomatos - na thatws chwaith!

Petai peiriant amser wedi ein chwipio 'nôl i gyfnod gogoniant Llancaeach yn y 16G a'r 17G fe fydden ni wedi bwyta pryd tra wahanol, heb lawer o ddewis nac ystyriaeth wybodus o faeth y bwyd. Yr oedd pobl y cyfnod hwnnw yn meddwl bod cael digonedd o gig yn bwysig, a bod llysiau'n niweidiol i'r corff. Mae pethau wedi newid yn sylweddol erbyn hyn.

Nid y bwyd yn unig fyddai'n eu synnu, ond popeth amdanon ni - ein gwisgoedd, ein gwallt, ein dannedd godidog, ein sbectol, y ffonau sydd yn ein dwylo…. Ond fe fyddai pwrpas ein cyfarfod yn ddigon hysbys i drigolion y plas 400 o flynyddoedd yn ôl, a iaith ein sgwrs hefyd yn gwbl gyfarwydd iddynt. Hyfryd yw meddwl bod Dewi'n cael ei ddathlu a seiniau'r iaith Gymraeg i'w clywed yn Llancaeach o hyd!

**Dosbarth Wyn**

Mae croeso i chi ymuno â ni yn ein cyfarfod nesaf y dosbarth Llenydda sydd bellach yn cyfarfod ar Zoom ar nos Fercher unwaith y mis. Dyma wybodaeth am y ddwy sesiwn olaf ar gyfer eleni. Dyma ni, beth amdani?

| | |
|---|---|
| **Ebrill 27ain** | **Gweddill y cystadlaethau Rhyddiaith** |
| Mai 18fed | **I'w drafod** |

I gael rhagor o wybodaeth ac i dderbyn y ddolen Zoom, anfonwch at Wyn (JamesEW@caerdydd.ac.uk)

# Colofn y Dysgwyr

**Ann Lewis**

Tybed ydych chi'n darllen hwn ar ddiwrnod cyntaf Ebrill, neu ddydd Ffŵl Ebrill. Ydych chi wedi chwarae tric Ffŵl Ebrill ar rywun, neu oes rhywun wedi chwarae tric arnoch chi?

Does neb yn siwr iawn pam fod y cyntaf o Ebrill yn ddiwrnod i chwarae triciau, ond mae'n draddodiad sy'n mynd nol am ganrifoedd, efallai i amser y Rhufeiniaid. Mae'n bosibl mai ffordd o ddathlu bod y gwanwyn wedi cyrraedd yw chwarae triciau.


Mae llawer o wledydd eraill yn chwarae triciau hefyd. Yn Ffrainc mae traddodiad y *'poisson d'avril'* (pysgodyn Ebrill), ble mae rhaid i chi geisio pinio pysgodyn papur ar gefn rhywun arall heb iddo fe neu hi sylwi.

Dros y blynyddoedd mae'r BBC wedi chwarae sawl tric ar eu gwylwyr ar Ebrill y cyntaf. Oes rhywun yn cofio'r eitem ar Panorama yn 1957 yn disgrifio cynhaeaf spaghetti yn y Swisdir?

Wedyn yn 1980, roedd eitem ar y BBC World Service yn dweud bod Big Ben yn mynd yn ddigidol. Hefyd bydden nhw'n gwerthu bysedd y cloc i'r person cyntaf i ffonio i mewn! Roedd rhai pobl yn grac iawn am hyn.

Gobeithio i chi fwynhau dydd Ffŵl Ebrill a chael cyfle i chwerthin am ryw dric.

Pasg hapus i chi i gyd.



*traddodiad : tradition* *am ganrifoedd : for centuries* *y Rhufeiniaid : the Romans* *dathlu : celebrate*
*heb iddo fe neu hi sylwi : without him or her noticing* *gwylwyr : viewers* *cynhaeaf : harvest*
*digidol: digital* ***bysedd** y cloc : the **hands** of the clock (Clocks in Welsh have fingers not hands!)* *chwerthin : laugh*
*Pasg : Easter*

# Hen Gerddi'n Hardal

Un peth sy'n amlwg ddigon
Er gwarth i hil y Brython,
Fod llawer Cymro truan, tlawd
Yn ofni gwawd y Saeson.

Mi welais *riots* Merthyr
A gormes fawr y gweithwyr;
Fe laddwyd trigain yn ddi lai,
A chlwyfwyd rhai o'r milwyr.

Ac onid yw'n drueni
Na feddent fwy o egni;
Pob un i siarad yn ei drefn
Heb droi ei gefn nac ofni.

Daeth yno wŷr yr Hirffyn [=*Lancers,* sef y milisia]
A'r Peisiau bach i'w canlyn [sef yr *Highlanders*]
Ond hawyr annwyl! aethus dric
Oedd crogi Dic Penderyn.

# Menter Iaith Sir Caerffili

Braf iawn yw gallu cynnal ein sesiynnau wyneb yn wyneb unwaith eto o dan do a thu allan. Dyma ambell lun o'n sesiynnau amrywiol dros Ionawr a Chwefror.

Mae croeso mawr i bawb ymuno yn ein digwyddiadau a gweithgareddau.

Cysylltwch am rhagor o fanylion: bethanjones@mentercaerffili.cymru



Sadwrn Siarad



Bore Coffi



Clwb Darllen



Trefnu Blodau



Crefft a Chlonc



Clwb Cerdded



Miri Meithrin

Ffiliffest

Dyddiad i'r dyddiadur

Mehefin 11, 2022

12:00-19:00

ar Gaeau Owain Glyndwr, Caerffili